# Cofnodion Cyfarfod 5/2/2026

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Jacqueline Allen, Huw Symonds, Eluned Jones, Ken Edwards, Tomos Ffrancon, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Moira Mai, Sion McGuiness, Eifion Roberts a Rhys Evans.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Fe estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 15/1/26.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Croesawu Tomos Ffrancon: Croesawyd Tomos Ffrancon i'w gyfarfod cyntaf fel aelod cyfetholedig o'r Cyngor Tref. Nodwyd fod Tomos yn cymhwyso i fod yn gynghorydd oherwydd fod ei leoliad gwaith yn y Bala. Adroddwyd fod Tomos wedi cwblhau Datganiad Derbyn Swydd a'r Daflen Lwfans Aelodau, a'i fod yn paratoi y Daflen Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr.

   ii. Seddi Gwag y Cyngor: Eglurwyd fod dwy sedd wag yn parhau ar y Cyngor, ac na fu ymateb i hysbyseb y Cyngor yn rhoi'r cyfle i etholwyr i alw etholiad. Cytunwyd felly i hysbysebu'r cyfle i gyfethol aelodau, i osod dyddiad cau cyn diwedd Chwefror, ac i gyfethol yr aelodau newydd yng nghyfarfod mis Mawrth.

   iii. Parc Cenedlaethol Eryri – Trefniadau Parcio ger Llyn Tegid: Nodwyd na dderbyniwyd ymateb pellach gan Brif Weithredwr y Parc Cenedlaethol yn dilyn y trafodaethau diweddar ar drefniadau a chostau parcio ger Llyn Tegid.

   iv. Cynllun Gwynedd Ni: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod is bwyllgor y cyngor ar Ionawr 29 i drafod y gwaith o osod raciau beics a bocsys blodau ychwanegol i'r dref, a pholyn fflag i faes parcio'r Grin. Nodwyd fod lleoliad y raciau beics wedi eu marcio, a bod angen cysylltu gyda chontractiwr i osod yr offer.

   v. Gwaith Celf y Bala: Nodwyd fod yr is bwyllgor hefyd wedi trafod lleoliad posibl ar gyfer y gwaith celf, a'u bod yn argymell safle ger Canolfan Hamdden Byw'n Iach. Cytunwyd i gysylltu gyda rheolwyr y ganolfan i drafod hyn ymhellach.

vi. Palmentydd y dref: Derbyniwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru yn nodi eu bod yn barod iawn i drafod cyflwr cyffredinol palmentydd y dref. Cytunwyd i'w gwahodd i gyfarfod yn y Bala i drafod y mater ymhellach.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd ei fod wedi ymweld â fflatiau Heol y Berwyn ar eu newydd wedd. Adroddodd fod y gwelliannau i goed y Stryd Fawr yn parhau, nad yw gwerthiant Neuadd Buddug wedi ei gwblhau, a'i fod wedi trafod datblygiad Fferm Wynt Foel fach gyda'r datblygwyr, gan bwysleisio yr angen i benodi contractwyr lleol,, i sicrhau gohebiaeth ddwyieithog, ac i gadw'r budd ariannol yn lleol.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod y Cyng Jacquie Allen wedi cael pris am nwyddau ar gyfer plannu blodau yn y dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Un Llais Cymru:** Cafwyd adroddiad gan y Maer o Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar Ionawr 21ain, a nodwyd fod rheolau'r gymdeithas wedi eu haddasu er mwyn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau buan.

**Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn:** Ni chafwyd adroddiad o gyfarfodydd diweddar.

**Grŵp Busnesau'r Bala:** Ni chafwyd adroddiad o gyfarfod diweddar.

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Rhoddwyd adroddiad o lansiad gwasanaeth Car Cymunedol y Bala a Phenllyn ar Chwefror 5ed, a nodwyd fod y gwaith ar Ganolfan Bro Tegid ar fin cael ei gwblhau. Adroddwyd fod y cwmni yn datblygu prosiect hyfforddiant digidol i'r ardalwyr, ac fe anogwyd yr aelodau i gwblhau Holiadur Cymhwysedd Digidol.

7. **Materion Cynllunio**:

Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*8.* **Materion Cyllid:**

i. Adroddwyd fod Archwiliad Blynyddol o gyfrifon y cyngor am 2024/2025 wedi ei gwblhau, a bod rhai sylwadau ac argymhellion gan Archwilio Cymru. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid roi sylw i'r materion yma. Cadarnhawyd fod y Datganiad Blynyddol wedi ei arddangos ar wefan ac ar hysbysfwrdd y cyngor.

**ii.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £6,682 yn y cyfri cyfredol, £30,333 yn y cyfri cadw a £406 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Ionawr.

**iii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc ac anfoneb Cyngor Gwynedd am osod a thynnu Goleuadau Nadolig y Cyngor Tref.

**iv.** Nodwyd fod y cyngor wedi anfonebu Cyngor Gwynedd am y gwaith o gynnal Tomen y Bala.

**v.** Cytunwyd i ystyried ceisiadau ariannol i'r Cyngor Tref yng nghyfarfod mis Mawrth o'r cyngor.

vi. Adroddwyd fod y Maer wedi gwirio cyfrifon banc y Cyngor Tref.

**9. Gohebiaeth:**

i) Liz Saville Roberts: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfle i enwebu'r Bala i wobrau Tref Ddiwylliant y DU.

ii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfle i enwebu'r cyngor i Wobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru.

iii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o raglen hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyfer y gwanwyn, a gofynnwyd i'r clerc gylchredeg y wybodaeth i'r aelodau, yn benodol i'r aelodau newydd.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Tynnodd y Cyng Tomos Ffrancon sylw'r aelodau at Gronfa Adeiladau'r Parc Cenedlaethol, a gofynnwyd i Tomos anfon y wybodaeth ymlaen rhag ofn y gallai fod o fudd i'r dref.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 5 Mawrth 2026.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)